ADL Report W 22/6/05 11:59 am Page 1

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mehefin 2005
www.wao.gov.uk

# Cwymp Antur Dwyryd-Llŷn

Yr wyf wedi paratoi'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Roedd y tîm astudiaeth o Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnwys Jeremy Morgan and Ian Summers.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**2-4 Park Grove**
**Caerdydd**
**CF10 3PA**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae'n archwilio ac yn gwirio ac yn ardystio cyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo'r hawl statudol i wneud adroddiad ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrff hynny ac i wella'u defnydd o adnoddau wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau dan Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn diogelu safle cyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'r adrodd yn ôl yn benodol i'r Cynulliad ar y gwaith llywodraeth leol hwn.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod; ffôn 029 2026 0260, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu ymwelwch â'r wefan http://www.wao.gov.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Y Cwmni | 5 |
| Cyfrifoldebau Llywodraeth y Cynulliad Cymreig | 5 |
| Rheolaeth cytundebau gydag Antur Dwyryd-Llŷn | 6 |
| Sylwadau cloi | 12 |

## Crynodeb o'r Casgliadau

1. Yn dilyn cwymp Antur Dwyryd-Llŷn Cyf. ym mis Medi 2004, ysgrifennodd dau Aelod Cynulliad at fy rhagflaenydd, gan ofyn iddo ymchwilio i'r rhesymau dros eu methiant ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r cytundebau a wnaed, a'r cymorthdaliadau a roddwyd i'r Cwmni gan Lywodraeth y Cynulliad Cymreig a Chyrff Cyhoeddus a noddwyd gan y Cynulliad, a gweithgareddau cysylltiedig. Nid yw'n archwilio'n uniongyrchol i weithgareddau mewnol y Cwmni na gweithrediadau cyfarwyddwyr, gan fod y rhain y tu hwnt i'm gorchwyl gwaith

2. Llwyddodd Antur Dwyryd-Llŷn i ddarparu gwasanaethau craidd, fel cymorth i fusnesau, cyngor a hyfforddiant; tystiolaeth i hynny yw eu perfformiad mewn cytundebau gyda'r WDA a llwyddiant Siop Sgiliau Gwynedd, prosiect wedi'i anelu at wella sgiliau pobl â sgiliau isel, a gwneud iddyn nhw ganfod a goresgyn yr hyn oedd yn eu rhwystro rhag datblygu sgiliau. Mae'n ymddangos bod problemau Antur Dwyryd-Llŷn wedi dechrau wrth iddyn nhw gymryd drosodd a rheoli'r Cynllun Cymunedol, Hyfforddi Sgiliau Peldroed (y Cynllun) - prosiect a ddatblygodd i fod y mwyaf o weithgareddau'r Cwmni.

3. Mae'n ymddangos bod y Cwmni wedi gorymestyn ei hunan wrth reoli'r prosiect a phrosiectau eraill, oherwydd anawsterau wrth gydymffurfio â thelerau cytundebau ag ELWa - Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (y Cyngor Cenedlaethol); nid oedd yn medru cael hyd i'r arian disgwyliedig, ac arweiniodd hyn at broblemau llif arian. Roedd y Cwmni eisoes wedi penderfynu ymrwymo i brosiect gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF), gan ddefnyddio'u harian eu hunain fel arian cyfatebol, er eu bod yn obeithiol y gallent wedyn gael ariannu sector cyhoeddus arall gan Llywodraeth y Cynulliad o'r cronfeydd Adfywio Lleol neu Ffordd at Ffyniant. Pan nad oedd ariannu ar gael o'r ffynonellau hyn, roedd y Cwmni'n methu â chyflawni'u goblygiadau cytundebol i'r Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymreig (WEFO) i ddarparu'r arian ar gyfer y prosiect ESF. Hyn, yn y diwedd, a arweiniodd at gwymp y Cwmni.

4. Er bod Antur Dwyryd-Llŷn yn sylweddol ddibynnol ar gytundebau a grantiau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, nid Llywodraeth y Cynulliad Cymreig na'r cyrff a noddir ganddo sy'n gyfrifol am gwymp y Cwmni. Mae'n ymddangos bod y Cwmni'n dioddef o ddiffyg rheolaeth fewnol a chamreoli (paragraffau 11 a 18), perfformiad cytundebol gwael (paragraffau 10 i 17) a diffyg sefydlogrwydd ariannol (paragraffau 7 a 16).

5. Ond mae rhai digwyddiadau yn ymwneud â chwymp Antur Dwyryd-Llŷn yn tynnu sylw at bynciau sy'n ymwneud â chyfathrebu rhwng cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn gyntaf, nid oedd Llywodraeth y Cynulliad Cymreig yn ei ystyried yn briodol i drafod asesiad atebolrwydd y Cwmni gyda'u corff eu hunan – Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad na gyda WEFO. Y rheswm am hyn oedd bod asesiad felly'n ymwneud yn benodol a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth drethiannol, heb fod yn ddigonol nag yn ddigon amserol, i wneud penderfyniadau manwl am ymrwymiadau masnachol na chytundebol.

6. Yn ail, mae triniaeth cais Antur Dwyryd-Llŷn am ariannu cyfatebol ar gyfer Siop Sgiliau Gwynedd oddi wrth gronfa Ffordd i Ffyniant Llywodraeth y Cynulliad yn amlygu diffyg cyfathrebu rhwng y gwahanol gyrff cyhoeddus â'r gwahanol adrannau o fewn y Cynulliad oedd yn delio ag Antur Dwyryd-Llŷn (Swyddfeydd Caerdydd a Machynlleth WEFO a swyddogion eraill yn Llywodraeth y Cynulliad Cymreig a oedd yn gyfrifol am drin y cais Ffordd i Ffyniant). Er bod Llywodraeth y

Cynulliad Cymreig nad oedd a wnelo hyn fawr ddim â sefyllfa ariannol y Cwmni, mae yma wersi i'w dysgu am gyfathrebu gyda, a rhwng, cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

## Y Cwmni

7. Sefydlwyd Antur Dwyryd-Llŷn Cyf. ym 1988 fel asiantaeth Menter Leol i hybu ac annog gweithgaredd diwydiannol a masnachol, â phwyslais arbennig ar hybu busnesau bach. Sefydlwyd y Cwmni o ganlyniad i fenter wledig a noddwyd gan y Swyddfa Gymreig, a gafodd gefnogaeth wreiddiol gan y sectorau preifat a chyhoeddus, yn arbennig, Grant Asiantaeth Mentrau Lleol gan y Swyddfa Gymreig ac ICI a oedd, yr adeg honno, yn cau un o'u ffatrïoedd yn yr ardal. Parhaodd y gefnogaeth breifat mewn blynyddoedd canlynol oddi wrth Trydan Niwclear, mewn ymgais i wneud yn iawn am gau Gorsaf Bŵer Niwclear Trawsfynydd ym 1993. Gweithredodd Antur Dwyryd-Llŷn ledled Gwynedd, gan ddarparu gwasanaethau cynghori i fusnesau, â'r mwyafswm o'i waith wedi'i ariannu trwy gytundebau gyda'r Cyngor Cenedlaethol dros a'r WDA. Roedd y gwasanaethau craidd yn cynnwys:

- dechrau busnesau newydd;
- cymorth i fasnachwyr unigol;
- cymorth busnes am gynlluniau busnes, ffynonellau ariannu a datrys problemau;
- TG a chymorth am e-fasnach; a
- masnachu a marchnata mewnol.

8. Roedd cyfrifon archwiliedig Antur Dwyryd-Llŷn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002 yn dangos bod y corff yn gweithredu gyda gwarged o bron i £154,000 mewn trosiant o £3.1 miliwn a gydag arian parod mewn llaw o £157,000. Ond roedd y cyfrifon archwiliedig ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003 yn dangos bod sefyllfa ariannol y corff wedi gwaethygu ac yn dangos colled o tua £171,000 mewn trosiant o £4.3 miliwn â diffyg o ran arian parod o £150,000. Roedd y gorddrafft o £486,000 ar 31 Mawrth 2003 wedi llamu o £105,000 ar 31 Mawrth 2002. Tynnodd yr archwilwyr allanol sylw at yr ansicrwydd am barhad ac adnewyddu'r galli i gynnal y gorddrafft, ac felly gallu'r Cwmni i barhau mewn busnes.

9. Ceisiodd Antur Dwyryd-Llŷn i ymlwybro trwy eu problemau ariannol ac ail-drefnu cynlluniau talu credydwyr, ac, er bod y cwmni wedi llwyddo, i raddau bach, i leihau eu dyled i'r banc, methodd â thalu amryw o'u credydwyr. Ym Medi 2004, roedd sefyllfa'r Cwmni'n ddifrifol a chyflogau staff heb eu talu. Tua diwedd Medi 2004, penododd Antur Dwyryd-Llŷn Kroll Cyf., cwmni ymgynghorol ac ailstrwythuro blaengar, i reoli trefniadau methdaliad a'r posibilrwydd o ailstrwythuro'r busnes. Yn gynnar yn Hydref 2004, prynwyd y Cwmni gan gwmni newydd, AARCO 51, a enwyd yn ddiweddarach yn Celtic Business Solutions. Ond yn dilyn profion am sicrwydd ariannol, gwrthododd y WDA â throsglwyddo'u cytundebau cyfredol gydag Antur Dwyryd-Llŷn i Celtic Business Solutions. Yn achos y Cyngor Cenedlaethol, oherwydd methdaliad, terfynwyd y cytundebau gydag Antur Dwyryd-Llŷn yn syth a chynhaliwyd proses dendro i ailosod y gwaith. Ar ddiwedd Hydref 2004, aeth Celtic Business Solutions yn fethdalwyr a diswyddwyd 45 o gyflogai. Golygodd eu diffyg adnoddau wrth gefn bod 320 o gredydwyr ar eu colled o £500,000 rhyngddyn nhw a Chyllid y Wlad heb dderbyn £600,000.

## Cyfrifoldebau Llywodraeth y Cynulliad Cymreig

10. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad Cymreig yn ariannu yn uniongyrchol Asiantaethau Menter Lleol yng Nghymru, ond maen nhw'n cynnal arolwg blynyddol i benderfynu a ddylid parhau

â'r statws asiantaeth gydnabyddedig dan Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaethol (ICTA) 1988. Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad Cymreig arolwg felly o Antur Dwyryd-Llŷn ym Mawrth 2004 yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf ar gael, gan gynnwys cyfrifon archwiliedig y flwyddyn yn diweddu ym Mawrth 2003. Prif amcan yr asesiad oedd sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Treth Incwm a Threth Gorfforaethol 1988 er mwyn galluogi'r asiantaeth i elwa o ad-daliad treth. Wrth fynd heibio, nododd cyfrifyddion y Cynulliad anawsterau ariannol y Cwmni ac, wedi iddyn nhw nodi hyn i'r Cwmni, cafodd Llywodraeth y Cynulliad Cymreig sicrwydd bod y Cwmni'n ariannol iach yn y tymor byr. Nododd yr adolygiad, fodd bynnag, os byddai colled mawr yn ymddangos ar ddiwedd y flwyddyn yn diweddu ym Mawrth 2004 (nid oedd cyfrifon archwiliedig ar gael am y cyfnod hwn), gallai hygrededd ariannol y corff fod yn amheus. Er bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad Cymreig wedi nodi pryderon ariannol am Antur Dwyryd-Llŷn, ni throsglwyddwyd casgliadau'r arolygiad i'r Cyngor Cenedlaethol na'r WDA. Yn ôl Llywodraeth y Cynulliad ni fyddai rhoi gwybod, fel mater o drefn i'r Cyngor Cenedlaethol a'r WDA am y materion a nodwyd ganddyn nhw wedi bod yn briodol, oherwydd nad amcan yr adolygiad blynyddol oedd asesu hyfywedd tymor hir y corff (nag Asiantaethau Menter Lleol eraill yng Nghymru) ac felly, nid oedd cwmpas yr adolygiad yn ddigon eang i fod yn sail i ffurfio barn fanwl ar ymrwymiadau masnachol a chytundebol.

## Rheolaeth Cytundebau gydag Antur Dwyryd Llŷn

### Y Cyngor Cenedlaethol – Cynllun Hyfforddi Sgiliau Peldroed yn y Gymuned

**11.** Sefydlwyd y Cynllun Hyfforddi Sgiliau Peldroed yn y Gymuned dan ymbarél Siop Sgiliau Gwynedd ym 1998. Yr amcan oedd denu pobl heb allu academaidd naturiol tuag at hyfforddiant galwedigaethol trwy gyfrwng peldroed. Er bod gweithgareddau'n Cynllun, yn eu hanfod y tu allan i weithgareddau craidd Antur Dwyryd-Llŷn, datblygodd yn fuan i fod yn brif ran eu busnes, yn cyflogi 83 o staff ac yn denu 403 o gyfranogwyr. Fel arfer, mae'r Cyngor Cenedlaethol yn disgwyl, mewn rhaglen fel hon, gymhareb o un aelod o staff i ugain o gyfranogwyr. Yn gynnar yn 2004, cyflwynodd Antur Dwyryd-Llŷn dendr i'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer darparu Addysgu yn y Gweithle. Dan y cynllun, byddai Antur Dwyryd-Llŷn yn darparu hyfforddiant a chymwysterau dan y rhaglen Prentisiaeth Modern Sylfaenol. Roedd Antur Dwyryd-Llŷn yn llwyddiannus â'u tendr ac yn haf 2004, cafodd gytundeb gwerth £438,000. Ond, yn y cyfnod Awst i Fedi 2004, roedd perfformiad Antur Dwyryd-Llŷn islaw'r safonau a gytunwyd a gostyngwyd y grantiau yn unol â hynny (**Ffigwr 1**):

**12.** Mae Gwasanaeth Archwilio'r Cyngor Cenedlaethol yn cynnal adolygiadau o bob

**Ffigwr 1: Gwerth y cytundeb a thaliadau a wnaed mewn gwirionedd i Antur Dwyryd-Llŷn am Gynllun Cymunedol Hyfforddi Sgiliau Pêl-droed**

| Dyddiadau | Gwerth y cytundeb (£000'au) | Perfformiad Cytundebol (£000'au) |
|---|---|---|
| 2004-05 (Awst-Medi) | 60 | 31 (52 y cant) |

darparydd Dysgu yn y Gweithle i fynegi barn ar ddigonolrwydd, effeithiolrwydd a dibynadwyedd y system reolaeth fewnol a sefydlwyd gan y Darparydd dros gronfeydd y Cyngor Cenedlaethol. Cynhelir adolygiadau yn ôl patrwm, â'u blaenoriaethau'n seiliedig ar risg sy'n hysbys i'r Cyngor Cenedlaethol. Ar gyfer Antur Dwyryd-Llŷn, trefnwyd yr adolygiad ar gyfer Medi 2004. Casgliad yr adolygiad oedd nad oedd y Cwmni wedi cynnal system reolaeth fewnol dros yr arian a hawliwyd gan y Cyngor Cenedlaethol yn ystod y cyfnod a adolygwyd. Roedd y meysydd allweddol ag angen sylw arbennig yn cynnwys cofnodi systemau rheolaeth fewnol a chydymffurfiant â meini prawf cymhwyster. Er i argymhellion gael eu gwneud, ni weithredwyd arnyn nhw cyn i'r Cwmni gwympo.

**Academi Peldroedwyr Ifanc – Prosiect Amcan 1**

**13.** Datblygiad o raglen brif ffrwd y Cynllun oedd yr Academi Peldroedwyr Ifanc. Y bwriad oedd recriwtio hyd at 92 o bobl ifanc â sgiliau peldroed da ond heb fod yn ddigon dawnus i ennill eu lle ar lefel broffesiynol. Cafodd y prosiect gefnogaeth Ymddiriedolaeth Cymdeithas Beldroed Cymru ac Aelodau'r Cynulliad. Gallai'r cyfranogwyr ennill bywoliaeth amser llawn yng nghlybiau Prif Adran Cymru yn ogystal ag ennill hyd at 10 o gymwysterau chwaraeon a galwedigaethol eraill.

**14.** Dechreuodd y prosiect yn Chwefror 2003 gydag ariannu gan gronfa ESF Amcan 1 (£829,036). Cadarnhawyd ariannu cyfatebol o £577,000 i'r prosiect dros 12 mis gan y Cyngor Cenedlaethol. Trefnwyd y prosiect gan Antur Dwyryd-Llŷn yn Ne Ddwyrain Cymru, De Orllewin Cymru a Chanolbarth Cymru, gan ddirprwyo rheolaeth dros ranbarth Gogledd Cymru i Goleg Iâl.

**15.** Mae pob prosiect a ariannir gan yr ESF yn cynnwys ataliad o 20% o'r grant am y flwyddyn olaf, tan i'r darparydd gyflwyno Adroddiad Cwblhau Prosiect i'r WEFO. Gwnaed taliadau gan y WEFO i Antur Dwyryd-Llŷn o Chwefror 2003 tan Ebrill 2004 pan gyrhaeddwyd y nenfwd o 80%. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd Adroddiad Cwblhau Prosiect ac felly ni wnaed y taliad terfynol. Gofynnwyd hefyd i'r Cwmni gyflwyno Tystysgrif Archwilio flynyddol i gadarnhau bod y grantiau a wnaed tan ddiwedd Ionawr 2004 wedi'u gwario yn y modd a gytunwyd. Cafodd y Cwmni hyd at 30 Ebrill 2004 i gyflwyno'r Tystysgrif, ond ni wnaed hyn. Parhaodd WEFO i wneud taliadau tan Ebrill 2004 hyd at gyfanswm a oedd yn gyson â'r polisi o atal 20%.

**16.** Roedd y cytundeb rhwng Antur Dwyryd-Llŷn â'r Cyngor Cenedlaethol am ariannu cyfatebol yn amlinellu'r angen am adolygiadau ffurfiol i asesu perfformiad yn erbyn targedi a phroffiliau, dangosyddion perfformiad, materion ansawdd a materion perthnasol eraill. Ni fyddai'r Cyngor Cenedlaethol fel arfer yn gwneud taliadau misol i Antur Dwyryd-Llŷn os na chyrhaeddwyd targedi'r cytundeb. Roedd y manylion am daliadau a gafwyd gan y Cyngor Cenedlaethol yn dangos - er i 80% o daliadau gael eu gwneud o fewn y cyfnod 30 diwrnod penodedig wedi derbyn anfoneb, roedd y perfformiad cytundebol yn dipyn is na'r safon a gytunwyd. O ganlyniad, gwelwyd gostyngiad yn nhaliadau'r Cyngor Cenedlaethol (**Ffigwr 2**).

**17.** Erbyn Awst 2003, roedd gorddrafft Antur Dwyryd-Llŷn wedi dyblu; roedd yn amlwg nad oedd modd cynnal y prosiect ar ariannu cyfatebol yn seiliedig ar ddeilliannau. Erbyn diwedd Awst 2003, £50,000 yn unig allan o £250,000 posibl a oedd wedi'i dalu oherwydd perfformiad cytundebol gwael. Cyfarfu Antur Dwyryd-Llŷn gyda'r Cyngor Cenedlaethol i

**Ffigwr 2: Gwerth y cytundeb a thaliadau a wnaed mewn gwirionedd i Antur Dwyryd-Llŷn am yr Academi Peldroedwyr Ifanc**

| Dyddiadau | Gwerth y Cytundeb (£000'au) | Perfformiad Cytundebol (£000au) |
|---|---|---|
| 2003-04 | 708 | 535 (76 y cant) |
| 2004-05 (Cyfnod 1-4) | 401 | 268 (67 y cant) |
| Cyfanswm | 1169 | 834 (71 y cant) |

geisio mynd i'r afael â'r sefyllfa a gwneud cais am daliad ymlaen llaw. Atgyfeiriwyd y mater at wasanaeth archwilio mewnol y Cyngor Cenedlaethol, a ddyfarnodd yn gywir y gallai taliad o'r fath fod yn torri rheolau Cyfrifo'r Llywodraeth.

**18.** Ymatebodd Antur Dwyryd-Llŷn i'r Cyngor Cenedlaethol, gan ddweud bod WEFO wedi talu'r hawliadau a wnaed gan y corff o £265,000, a oedd yn cyfateb i gyfanswm y gwariant gan y darparydd hyfforddiant hyd at yr adeg honno (£450,000). Ychwanegodd Antur Dwyryd-Llŷn fod y Cyngor Cenedlaethol wedi arwyddo tystysgrif Ariannu Cyfatebol Cyhoeddus yn cadarnhau darpar gyfraniad o 41.1 y cant, ac felly dylent fod wedi talu £185,000 i Antur Dwyryd-Llŷn. Ond, oherwydd na chyflawnwyd y targedi a'r deilliannau a amlinellwyd yn y cytundeb rhwng y Cyngor Cenedlaethol ag Antur Dwyryd-Llŷn, £59,000 yn unig a dalwyd gan y Cyngor Cenedlaethol - diffyg o £126,000 yn erbyn y cyfanswm arfaethedig. Dywedodd Antur Dwyryd-Llŷn mai'r diffyg hwn oedd yn gyfrifol am eu sefyllfa ariannol wael. Ni anfonwyd cais am yr £126,000 a oedd yn weddill gan Antur Dwyryd-Llŷn at y Cyngor Cenedlaethol oherwydd, yn ôl y derbynwyr swyddogol, nid oedd y ddogfennaeth yn ddigonol i ddilysu hawliad. Honnwyd yn y cyfryngau bod llawer iawn o arian yn ddyledus i'r cwmni wedi iddyn nhw fynd yn fethdalwyr. Ond hyd yn oed pe bai tystiolaeth i'r honiadau hyn, o dan delerau'r cytundeb rhwng y Cyngor Cenedlaethol ag Antur Dwyryd-Llŷn, terfynwyd y cytundeb yn awtomatig o ganlyniad i fethdaliad Antur Dwyryd-Llŷn.

**19.** Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd gan ymgynghorydd a gyflogwyd gan Antur Dwyryd-Llŷn i gynnal arolwg o'r Cynllun yn arwyddo bod camreolaeth o'r prosiect wedi cyfrannu'n helaeth at gwymp y Cwmni. Casgliad yr arolwg oedd nad oedd unrhyw gynllun i'w weld ar gyfer sefydlu sut i gyflawni deilliannau disgwyliedig y prosiect. Yn Ionawr 2004, gwnaeth Cyllid y Wlad archwiliad o'r Cwmni ac, wedi darganfod bod amryw o staff y Cynllun wedi'u rhestri'n hunangyflogedig yn hytrach na chyflogedig, gosodwyd dirwy o £120,000 ar y cwmni.

### WDA – Dechrau Busnesau Newydd a Chanolfannau TGCh

**20.** Roedd gan Antur Dwyryd-Llŷn gytundeb gyda'r WDA am Ddechrau Busnesau Newydd, Menter Masnachwyr Unigol ac Adolygiadau Busnes o Ebrill 2002 tan Fawrth 2005. Cytundeb oedd hwn ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth busnes i fentrwyr yng Nghymru, gyda'r bwriad o godi nifer busnesau newydd yng Nghymru, yn arbennig y rhai hynny oedd yn debyg o dyfu, a chynorthwyo'r busnesau hyn i oroesi a thyfu. Dywedodd y WDA fod Antur Dwyryd-Llŷn wedi gwneud yn well nag a ddisgwyliwyd o'r cytundeb hwn yn 2003-04 ac wedi'u talu'n llawn ar gyfer y deilliannau a gafwyd.

**21.** Roedd gan Antur Dwyryd-Llŷn hefyd gytundebau i ddarparu gwasanaethau Canolfannau Technoleg Gwybodaeth a Thechnoleg (TGCh) yng Nghonwy a Gwynedd o 1 Awst 2003 tan 31 Mawrth 2005. Sefydlwyd y canolfannau hyn i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd ar TGCH i gwmnïau bach a chanolig; roedd hyn yn rhan o raglen ehangach a noddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad Cymreig. Roedd y WDA'n asesu'r perfformiad yn erbyn y cytundeb, gan fynnu cyflwyniadau misol am ddeilliannau, monitro'r busnesau yr oedd Antur Dwyryd-Llŷn wedi rhoi cytundeb iddyn nhw, a sicrhau bod ymgynghorwyr yn dangos cynnydd o ran cymwysterau. Tan ddyddiad y methdaliad, talwyd yr holl anfonebau a gyflwynwyd gan Antur Dwyryd-Llŷn yn llawn (£60,000), gan fod yr holl dargedi cytundebol wedi'u cyflawni.

**Siop Sgiliau Gwynedd**

**22.** Amcan Siop Sgiliau Gwynedd oedd cynorthwyo'r bobl hynny, a oedd yn ddiffygiol o ran sgiliau, i ganfod a delio â'r hyn oedd yn eu rhwystro rhag datblygu sgiliau, er enghraifft, diffyg gwybodaeth, cysylltiadau, hyder ac arian. Targedwyd y di-waith, y rhai oedd yn anweithredol yn economaidd, yn ddiffygiol mewn sgiliau perthnasol, a'r rhai â chymwysterau wedi dyddio. Roedd yn gweithredu fel pont rhwng dyheadau unigolion â'r corff mwyaf priodol i ddiwallu'u hanghenion. Roedd y prosiect yn unigryw i Wynedd ac mae'r ffaith bod bron i fil o bobl wedi elwa o'r gwasanaeth (**Ffigwr 3**) yn dystiolaeth i'w bwysigrwydd. Ers 2000, ariannwyd y prosiect yn rhannol gan grantiau ESF (£171,000), gydag ariannu cyfatebol o gronfeydd Antur Dwyryd-Llŷn eu hunain (£109,000) a Bwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol (£63,000). At ei gilydd, roedd y prosiect yn un lwyddiannus iawn.

**Ffigwr 3 - Cyflawniadau yn erbyn targedi, Cyfnod 1 Siop Sgiliau Gwynedd**

| Gweithgaredd | Targed | Cyflawniad | % |
|---|---|---|---|
| Nifer a elwodd | 600 | 965 | 160 |
| Nifer a gyfranogodd mewn camau ymarferol | 600 | 965 | 160 |
| Nifer y bobl ifanc a dderbyniodd gymorth cyn bod yn ddi-waith am 6 mis | 20 | 106 | 530 |
| Nifer yr oedolion a dderbyniodd gymorth cyn bod yn ddi-waith am 12 mis | 177 | 252 | 142 |
| Nifer y gwragedd a dderbyniodd gymorth | 210 | 473 | 225 |
| Nifer y bobl anabl a dderbyniodd gymorth | 70 | 34 | 48 |
| Nifer o'r lleiafrifoedd ethnig a dderbyniodd gymorth | 32 | 11 | 34 |

**23.** Ceisiodd Antur Dwyryd-Llŷn barhau â'r prosiect a gwneud cais am ariannu ESF yn Chwefror 2002. Mae Ffigwr 4 yn amlinellu ceisiadau Antur Dwyryd-Llŷn am ariannu a'r digwyddiadau a arweiniodd at ddiwedd y prosiect. Roedd Llywodraeth y Cynulliad Cymreig yn ystyried na chafodd yr oedi cyn penderfynu ar ariannu cyfatebol na'r diffyg cyfarthrebu effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol y Cwmni. Fodd bynnag, mae yn amlygu'r diffyg cyfathrebu rhwng cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

**24.** Roedd dibyniaeth y Cwmni ar eu cronfeydd eu hunain cyn sicrhau ariannu cyfatebol o ffynonellau preifat, neu fel cam olaf, y gronfa Ffordd i Ffyniant, yn allweddol yn eu cwymp. Mae'n tanlinellu'r wers i ymgeiswyr cyffelyb sicrhau bod ganddyn nhw'r gallu ariannol a'r adnoddau ariannol yn eu lle cyn cychwyn ar brosiectau fel hyn.

**Ffigwr 4 – digwyddiadau'n arwain at gau Siop Sgiliau Gwynedd**

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| 1998 | Sefydlwyd gyda chymorth y Gronfa Elusennau Genedlaethol ac ariannu ESF |
| Chwefror 2002 | Cyflwyno cais i'r WEFO am barhau â'r prosiect |
| 16 Rhagfyr 2002 | Cyfarfod rhwng Antur Dwyryd-Llŷn â WEFO i drafod pryderon am y diffyg ymateb i'r cais |
| Gorffennaf 2002 tan Fawrth 2003 | Staff a gorbenion y prosiect yn cael eu talu o gronfeydd Antur Dwyryd-Llŷn eu hunain. |
| Mawrth 2003 | Derbyniwyd y cais i barhau â'r prosiect (Cyfnod 2) – ariannu, £217,000 |
| Mai 2003 | Cyfnod 2 yn dechrau |
| Mai 2003 | Trafodaethau gyda Chyngor Sir Gwynedd am ariannu o'r Gronfa Adfywio Leol |
| Tachwedd 2003 | Cyngor Sir Gwynedd yn cael gwybod gan Lywodraeth y Cynulliad Cymreig na fyddai'n derbyn Ariannu Adfywio lleol tan Ebrill 2005 |
| Tachwedd 2003 | Antur Dwyryd-Llŷn yn dilyn awgrym Cyngor Sir Gwynedd ac yn gwneud cais am £179,000 gan gronfa Ffyrdd i Ffyniant Llywodraeth y Cynulliad Cymreig |
| Tachwedd 2003 | Llywodraeth y Cynulliad Cymreig yn ymateb i'r cais hwn, gan amlinellu'r meini prawf a cheisio rhagor o wybodaeth |
| Rhagfyr 2003 | Antur Dwyryd-Llŷn yn ymateb gyda'r wybodaeth ychwanegol a geisiwyd |
| Rhagfyr 2003 | Llywodraeth y Cynulliad Cymreig yn gosod ataliad dros dro ar brosesu ceisiadau hys nes ceir mwy o wybodaeth am feini prawf a dulliau gweithredu'r gronfa Ffyrdd i Ffyniant |
| Ionawr 2004 | Antur Dwyryd-Llŷn yn ysgrifennu at Lywodraeth y Cynulliad Cymreig gan ofyn am ddiweddariad am y cais, a chael gwybod mai un unig oedd hwn ymhlith amryw o geisiadau oherwydd adolygiad y cynllun |
| Chwefror 2004 | Llywodraeth y Cynulliad Cymreig yn cysylltu eto ag Antur Dwyryd-Llŷn i ofyn a oedd angen ariannu pellach, ac os felly, byddai angen cais arall |
| Chwefror 2004 | Antur Dwyryd-Llŷn yn gwneud cais, gan ddweud bod yr ariannu yn angenrheidiol er mwyn i'r corff barhau i weithredu |

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| Mawrth 2004 | Antur Dwyryd-Llŷn yn hysbysu Llywodraeth y Cynulliad Cymreig y byddai Siop Sgiliau Gwynedd yn cyfrannu'n helaeth tuag at golledion masnachol y corff yn y flwyddyn hon. Penderfyniad Bwrdd Antur Dwyryd-Llŷn yw – os na ddaw ariannu cyfatebol o ffynhonnell arall, ni fydd y prosiect yn parhau wedi Mai 2004 |
| Mawrth/Ebrill 2004 | Gohebiaeth yn parhau gyda Llywodraeth y Cynulliad Cymreig i geisio sefydlu a oedd holl ffynonellau cymorth priodol eraill wedi'u harchwilio'n drylwyr ac a oedd y prosiect yn cefnogi nodau ac amcanion strategol y Cynulliad ei hunan |
| 5 Mai 2004 | Fel cam olaf, ysgrifennodd Aelod o'r Cynulliad at y Gweinidog dros Ddatblygiad Economaidd a Thrafnidiaeth, gan geisio cymorth Llywodraeth y Cynulliad Cymreig i'r |
| 11 Mai 2004 | Antur Dwyryd-Llŷn yn ysgrifennu at Swyddfa'r WEFO ym Machynlleth gan ddweud nad oedden nhw eto wedi derbyn ateb i'w cais am ariannu cyfatebol Ffordd i Ffyniant, ac, felly, oherwydd pwysau ariannol, y byddai'n rhaid dileu'r prosiect a diswyddo chwech o staff |
| Mai 2004 | Llywodraeth y Cynulliad Cymreig yn dal i brosesu'r cais Ffordd i Ffyniant a swyddfa WEFO ym Machynlleth yn methu â throsglwyddo llythyr Antur Dwyryd-Llŷn i'w pencadlys nag at Uned Fusnes Adran Ddatblygiad Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad Cymreig yng Nghaerdydd, sy'n gweinyddu'r gronfa |
| Mai 2004 | Llywodraeth y Cynulliad Cymreig, yn anymwybodol bod y prosiect wedi dod i ben, yn penderfynu bod yn fwy perthnasol i Strategaethau Addysg a Dysgu Gydol Oes na Datblygiad Economaidd. Gofynnodd yr Adran Addysg am asesiad o'r prosiect - a oedd yn teilyngu ariannu cyfatebol. Yn ei dro, pasiwyd yr ymholiad at y Cyngor Cenedlaethol |
| 24 Mai 2004 | Y Gweinidog yn ymateb i Aelod o'r Cynulliad, gan ddweud bod y Cynulliad yn cynnal arolwg o'r dull gorau i asesu ceisiadau ac y byddai Antur Dwyryd-Llŷn yn cael eu hysbysu am y penderfyniad pan fyddai'r cais wedi'i brosesu |
| Mehefin 2004 | Y Cyngor Cenedlaethol yn ymateb i Lywodraeth y Cynulliad Cymreig yn cyfeirio'r cais at yr Adran Addysg ac yn nodi: roedd yr Adran addysg eisoes wedi cefnogi agweddau dysgu a sgiliau'r prosiect trwy grant bwrsari o £20,000. Roedd y Cyngor Cenedlaethol bod gan y prosiect ei rinweddau, ond roedd yr agweddau o'r prosiect na gwmpaswyd gan y grant yn fwy perthnasol i weithgareddau datblygiad economaidd Antur Dwyryd-Llŷn. Ychwanegodd y Cyngor Cenedlaethol: beth bynnag, eu dealltwriaeth hi oedd bod y cynllwyn wedi dirwyn i ben, staff wedi'u diswyddo ac felly roedd mater ariannu cyfatebol yn amherthnasol |
| Awst 2004 | Llywodraeth y Cynulliad Cymreig yn ysgrifennu at Antur Dwyryd-Llŷn gan ddweud eu bod yn deall bod y prosiect bellach wedi dirwyn i ben, ac felly, ni fyddai'r Cynulliad yn prosesu'r cais am ariannu Ffordd i Ffyniant |
| Awst 2004 | Antur Dwyryd-Llŷn yn ymateb i'r Cynulliad gan ddweud bod y cyswllt cyntaf wedi'i wneud yn Nhachwedd 2003 pan bwysleisiwyd yr angen am ymateb buan; ym Mai 2004 roedden nhw'n dal heb dderbyn unrhyw ymateb |

## Sylwadau cloi

**25.** Mae cwymp Antur Dwyryd-Llŷn wedi cael effaith niweidiol sylweddol ar gannoedd o bobl a fyddai'n defnyddio'u gwasanaethau ac yn gadael gagendor i'r rhai sy'n ceisio gwella'u sgiliau ac ennill cymwysterau galwedigaethol, a, thrwy hynny wella'u gobeithion o ennill swydd. I raddau helaeth, mae'n ymddangos mai achos y cwymp oedd rheolaeth ariannol ddiffygiol ar ran y Cwmni. Fodd bynnag, mae rhesymau pellach i'w dysgu ar gyfer prosiectau cyffelyb yn y dyfodol:

**a.** Mae angen i ymgeiswyr arfaethedig sicrhau bod ganddyn nhw'r gallu ariannol, systemau monitro a chyfrifo priodol a'r sgiliau priodol i sefydlu'r prosiectau a chynnal effeithlonrwydd gweithredol;

**b.** Dylai ymgeiswyr ddiogelu ariannu cyfatebol digonol o ffynonellau preifat neu o gronfa Ffordd i Ffyniant, fel cam olaf, cyn ymrwymo'n gytundebol a pheryglu'u sefyllfa ariannol;

**c.** Dylai'r amrywiol gyrff cyhoeddus, sy'n ymwneud ag ariannu a goruchwylio prosiectau fel hyn, a goruchwylio prosiectau cyffelyb, ofalu bod cyfathrebu effeithiol rhyngddyn nhw am weithgareddau a gwybodaeth ei gilydd, er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr am grantiau'n derbyn triniaeth briodol a phrydlon, a bod arian cyhoeddus dan warchodaeth briodol.